Ymateb Ymgynghoriad i Ddogfen y Comisiwn Ewropeaidd ar Strategaeth "EU 2020" y Dyfodol

21 Rhagfyr 2009

WLGA • CLILC

CYFLWYNIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a mae awdurdodau y tri pharc cenedlaethol, y tri awdurdod tân ac achub, a'r pedwar awdurdod heddlu yn aelodau cyswllt.

2. Ei nod yw darparu cynrychiolaeth i awdurdodau lleol oddi fewn i fframwaith polisi sy'n datblygu a sy'n boddhau blaenoriaethau allweddol ei haelodau, yn ogystal â darparu ystod eang o wasanaethau sydd yn ychwanegu gwerth i Lywodraeth Leol yng Nghymru a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

---

3. Mae Strategaeth Lisbon, a'r amcanion a hyrwyddwyd o fewn iddi, yn sbardun allweddol ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol yn Ewrop, ac mae WLGA yn croesawu y papur trafodaeth hwn yn ogystal â datblygiad strategaeth olynol tu hwnt i 2010.

4. Er hyn, hoffem fynegi ein **siom fawr ynglyn â'r amserlen dynn iawn** ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r strategaeth hon yn bwysig iawn a gall achosi effaith hir dymor ar ddatblygiad cynaladwy yn ein cymunedau. Mae'r amser cyfyng i ymateb a chyfrannu yn sylweddol i'r drafodaeth yn groes i awydd cyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd, yn ôl pob sôn, i fod yn fwy cynhwysol.

5. Mae WLGA yn **cefnogi y blaenoriaethau a amlinellwyd yn y papur**. Rydym felly yn cefnogi'r angen am strategaeth glir a chadarn er mwyn symud i ffwrdd o'r argyfwng economaidd ac ariannol presennol, er ein bod yn pwysleisio y dylsai hyn gael ei seilio ar weledigaeth glir o'r cyfeiriad y mae Ewrop am symud iddo tu hwnt i'r argyfwng. Rydym felly yn rhoi cefnogaeth lawn i gynnig 'EU 2020' am economi gref sydd yn fwy cynaladwy, yn wyrddach, ac wedi'i seilio ar wybodaeth.

6. Yn wir, mae'n anodd dadlau yn erbyn y dymuniad i gyflawni agwedd integredig tuag at gystadleuaeth, cynhwysiant cymdeithasol, a chynaladwyedd amgylcheddol. Er hyn, y mater allweddol yw sut i gyflawni yr integreiddio hyn.

7. Mae WLGA yn **pryderu ynglyn â darpariaeth y strategaeth**. Mae prif amcanion awdurdodau lleol a rhanbarthol, a'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni ar y lefel leol, yn

cael ei adlewyrchu ar lefel yr UE yn y strategaeth hon, yn nhermau hyrwyddo mentrau lleol, swyddi, a llwyddiant. Mae sawl strwythur lywodraethol aml-lefel yn bodoli yn barod o fewn Polisi Cydlyniad ble mae partneriaid lefel lleol yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Fel canlyniad, dylsai'r Strategaeth newydd ddefnyddio y strwythurau partneriaeth sydd yn bodoli'n barod er mwyn ymateb i'r gwendidau presennol mewn strwythurau llywodraethol ac i gyflawni darpariaeth lwyddiannus y Strategaeth newydd.

Trefn lywodraethol aml-lefel ac agwedd o'r gwaelod i fyny

8. Mae'r ddogfen ymgynghoriad yn ymddangos fel pe bai yn alw am gyfranogiad ehangach a pherchnogaeth y strategaeth gan sawl haen o lywodraeth (Yr UE, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol), ac mae'n dweud y bydd "y sialens o fod yn economi marchnad gymdeithasol gynaladwy h.y. economi sydd yn gynhwysol, craff, ac yn wyrddach, yn gofyn am fwy o gydgysylltu, a gwell synergedd drwy **gyfrifolaeth effeithiol**..." (Tudalen 9). Er hyn, nid yw'n parhau i roi adnabyddiaeth eglur o rôl allweddol llywodraethau lleol a rhanbarthol i foderneiddio'r economi, ac yn gyffredinol mae'n amhendant ynglyn â sut i fwrw ymlaen gyda gwell cydgysylltu.

9. Galwn am **elfen rhanbarthol gryfach** yn y Strategaeth newydd sydd yn cydnabod yn glir yr angen i lywodraethau lleol a rhanbarthol fod yn rhan o ffurfiant, darpariaeth, a gwerthuso'r Strategaeth. Fe fydd gweithio'n agosach ar lefel lleol a rhanbarthol yn arwain at agwedd cydgysylltu o'r gwaelod i fyny, a fydd hefyd yn arwain at well gwerth am arian. Yn wir, yn economegol, mae'n cael ei gydnabod fwyfwy fod gweithred gyhoeddus yn fwy effeithiol pan fo'n ceisio integreiddio penderfyniadau buddsoddi yn hytrach na'u gwahanu.

10. Fel ag yr amlinellwyd eisoes, mae WLGA yn cefnogi'r blaenoriaethau sydd yn y cynnig yn ogystal â'r angen am atebion cynaladwy i symud i ffwrdd o'r argyfwng. Er hyn, mae'r cynnig yn methu cydnabod **pwysigrwydd llywodraethau lleol a rhanbarthol wrth gymryd rôl arweiniol tra'n ymateb i'r argyfwng economaidd ac ariannol ar lawr**. Yr unig ffordd i ddarparu gwir newid ar lawr, ac felly i gyflawni adferiad llwyddiannus o'r argyfwng, yw trwy mentrau o'r gwaelod i fyny.

11. Yn wir, pwysleisiodd Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ar 10-11 Rhagfyr 2009 bwysigrwydd sicrhau **cydlyniad tiriogaethol**, economaidd, a chymdeithasol yng nghyd-destun cyflawni blaenoriaethau y strategaeth newydd[1].

[1] Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd 10-11 Rhagfyr 2009, Paragraff 18, http://www.consilium.europa.eu/uedocs/cmsUpload/st00006.en09.pdf

Gwell Cydgysylltu trwy Bolisi Cydlyniad

12. Dylsai'r Comisiwn Ewropeaidd adeiladu ar y mecanweithiau darparu sydd yn bodoli'n barod, **gan adeiladu hefyd ar y wybodaeth ac arferion da sydd eisoes yn bodoli'n y Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Cydlyniad yn frasach**. Dylsai'r Cronfeydd Strwythurol cael eu haddasu i ymateb yn well i'r ffocws newydd a amlinellwyd yn y strategaeth newydd. Mae hyn, felly, yn golygu datblygu y **synergeddau angenrheidiol rhwng Agenda Lisbon a Pholisi Cydlyniad**. Cefnogwn y safbwynt a roddir gan Christine Chapman AC, Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, yn ei Opiniwn ar 'Dyfodol Strategaeth Lisbon ar ôl 2010', yn galw am "Bolisi Cydlyniad a ariannir yn dda ar draws yr UE er mwyn cefnogi darpariaeth y Strategaeth newydd"[2].

13. Pwysleisiwn fod llwyddiant unryw strategaeth yn y dyfodol yn gorfod cydnabod yn glir **rôl allweddol awdurdodau lleol a rhanbarthol wrth weithredu a chyfathrebu'r strategaeth ar lawr**. Rhaid i'r Strategaeth adlewyrchu a chefnogi darpariaeth amcanion yr UE ar lefel leol.

14. Galwodd y Cyngor Ewropeaidd ar 10-11 Rhagfyr am adolygiad newydd o'r fethodoleg a ddefnyddir yn nhermau strwythur lywodraethol fwy effeithiol a thryloyw a fyddai'n "datblygu perchnogaeth genedlaethol trwy fwy o gyfranogiad partneriaid cymdeithasol, yn ogystal ag **awdurdodau lleol a rhanbarthol**"[3].

Mesur effaith y Strategaeth newydd

15. Mae gan Strategaeth 'EU 2020' ddiffyg manylder ar y dangosyddion a thargedau i fesur cyflawniadau yn erbyn yr amcanion. Dylsai'r Strategaeth anelu at gyflawni **lles dinasyddion yr UE i gyd**, fel amcan brasach sydd yn cwmpasu pob peth. Fe fyddai hyn yn golygu cydgysylltu'r Strategaeth yn agosach i bolisi yr UE ym meysydd datblygiad cynaladwy, newid hinsawdd, polisi cymdeithasol, a chydlyniad tiriogaethol. Mae llwyddiannau cyflogaeth ac ariannol yn elfennau allweddol i sicrhau ansawdd da o fyw. Er hyn, er mwyn cyflawni lles ac ansawdd uchel cyffredinol o fyw, rhaid i'r strategaeth ddarparu agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol brasach ym mywyd dinasyddion.

[2] Opiniwn Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, Christine Chapman AC, Paragraff 23, COR/09/106, ECOS-IV-032
[3] Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd, 10-11 Rhagfyr 2009, Paragraff 19, http://www.consilium.europa.eu/uedocs/cmsUpload/st00006.en09.pdf

16. Mae Agendau Lisbon a Gothenburg wedi derbyn cryn dipyn o feirniadaeth am gyfranogiad bychan cyrff is-genedlaethol yn eu cynllunio a'u gweithredu. Yn wir, gellir dadlau fod rhan o effaith gyfyngedig yr agendau o ganlyniad i absenoldeb perchnogaeth ar lawr. **Rhaid i lywodraethau lleol a rhanbarthol fod yn ran o osod targedau lleol a rhanbarthol penodol er mwyn annog mwy o gyfranogiad a 'buddsoddiad' yng nghynllunio a darpariaeth Strategaeth 'EU 2020' ar lefel leol a rhanbarthol**.

17. Fel yr amlinellwyd yn ymateb WLGA i'r Papur Gwyrdd ar ddyfodol Polisi Cydlyniad (Chwefror 2009)[4], mae yna anfodlonrwydd cynyddol ynglyn â defnydd CMC (GDP) fel yr unig ddangosydd i fesur datblygiad economaidd. Rydym yn galw unwaith eto am **set o ddangosyddion sydd yn fwy cynhwysfawr a chredadwy er mwyn mesur tyfiant, lles, ac ansawdd bywyd**. Er mwyn ffurfio darlun cywrain o ddatblygiad rhanbarthol a thiriogaethol ar draws yr UE, rhaid i'r Strategaeth newydd gynnwys mesurau sydd yn ystyried sialensiau cymdeithasol ac amgylcheddol brasach, megis ansawdd yr aer, mynediad i wasanaethau (e.e. trafnidiaeth, ynni, TGCh, ayb), a newid demograffig.

18. Mae WLGA hefyd o'r farn fod y syniad o roi pwyslais mor gryf ar dyfiant angen ei wneud gyda gofal. Mae safbwynt sydd yn tyfu'n gynyddol yn dadlau nad dychwelyd i dyfiant yw'r agwedd gywir, yn enwedig pan fo dymuniadau'r UE nid yn unig yn economaidd, ond hefyd yn amgylcheddol a chymdeithasol, ac yn cynnwys byw o fewn rhwystrau ecolegol. Mae'r sylwadau yn y Strategaeth newydd, megis "tyfu'n gyflym a chynaladwy" (Tudalen 4) yn anghyson gyda'r syniad hyn, yn ogystal ag amcanion y Strategaeth i greu economi sydd yn fwy cynaladwy, yn wyrddach, ac wedi'i seilio ar wybodaeth. Fe fyddai symudiad i mesur frasach o les, yn wahanol i CMC, yn gam mawr tuag at gyflawni hyn.

19. Tu ôl i sawl dadl am 'dim tyfiant' mae **pwyslais parhaol ar "localism"** a gostyngiad mewn trafnidiaeth yn nhermau darparu bwyd, dŵr, a llafur, ayb. Fe fyddai hyn yn cefnogi safbwynt WLGA ymhellach, hynny yw yr angen i lywodraeth leol a rhanbarthol i fod yn rhan allweddol yng nghynllunio a darparu'r strategaeth newydd.

---

[4] Ymateb WLGA i ymgynghoriad y Comisiwn ar y Papur Gwyrdd ar Gydlyniad Tiriogaethol, Chwefror 2009, http://www.wlga.gov.uk/uploads/publications/5219.pdf

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Katie Cavell – Uwch Ymgynghorydd Polisïau Ewropeaidd
katie.cavell@wlga-brussels.org.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Swyddfa Ewropeaidd
Tŷ Cymru
Rond Point Schuman 11
1040 Brwsel
Gwlad Belg

Ffôn: 020 3328 0963
+32 (0)2 506 4488